BPS12 Battery Power Supply

Trosolwg

Mae'r BPS12 yn darparu cyflenwad-48 V cerrynt union dibynadwy. Gall fod yn unig ffynhonnell o bŵer i'r amrywiol elfennau o'r rhwydwaith yn eich busnes a phweru'r elfennau hynny y mae angen iddynt aros yn weithredol pan fydd pŵer cerrynt eiledol yn methu. Yn ystod gweithrediad arferol mae pŵer cerrynt eiledol yn gwefru'r batris yn y BPS12. Pan fo'r ffynhonnell o bŵer cerrynt eiledol yn methu mae'r BPS12 yn darparu pŵer ar unwaith o'i fatris mewnol. Yn wahanol i gyflenwadau pŵer traddodiadol na ellid torri ar eu traws ac sy'n annibynadwy ac yn gymhleth i'w gosod, mae'r BPS12 yn gyflenwad pŵer wrth gefn diwydiannol a fwriedir ar gyfer defnydd gyda chyfarpar cyfathrebu a rhwydweithio.

Cynhwysedd

Cynhwysedd y BPS12 yw 12 Ah gydag allbwn foltedd enwol o -48 V cerrynt union. Ceir chwe allbwn â ffiwsys ar wahân, y mae pob un yn gallu darparu cerrynt o hyd at 8 A. Felly gall y BPS12 ddarparu pŵer ar gyfer un neu fwy o ddyfeisiau ar yr un pryd. 12 A yw cyfanswm allbwn y cerrynt ac fe'i diogelir gan brif ffiws.

Gall un BPS12 ddarparu pŵer wrth gefn am o leiaf awr ar gyfer dyfais 500 W ac am o leiaf 6 awr ar gyfer dyfais 100 W. Er mwyn darparu pŵer wrth gefn am gyfnod hwy gellir cydgadwyno systemau BPS12.

Gosod a Defnyddio

Gall y BPS12 gael ei osod ar ei wyneb, ei ganol neu ei gefn mewn rhesel 19". Cysylltir â phŵer cerrynt eiledol gyda phlwg arferol. Golyga hyn eich bod yn gallu defnyddio'r cyflenwad cerrynt eiledol safonol yn eich ystafell rwydwaith heb wifrau arbennig. Mae swîts atal ar y BPS12 yn ei gwneud yn bosibl i ddatgysylltu'r allbynnau tra rydych yn cysylltu eich dyfeisiau rhwydwaith yn ddiogel.

Rhoddir diogelwch foltedd isel sy'n datgysylltu'r mewnbwn cerrynt eiledol pan fo y tu hwnt i ystod allbwn cerrynt eiledol cyffredinol. Golyga hyn na fydd y BPS12 yn cael ei difrodi, na fydd perfformiad yn dirywio, ac na fydd newid mewn gosodiadau os bydd foltedd cerrynt eiledol isel. Darperir allbynnau â ffiwsys ar y BPS12 i ddiogelu rhag cylched byr ac amodau tros gerrynt a gynhyrchir y tu allan i'r system.

Mae gan y BPS12 3 LED (Deuod Allyrru Golau) i nodi ei gyflwr gweithredu. Noda'r LED ar gyfer Pŵer p'un a yw'r BPS12 yn gwefru neu'n dadwefru. Noda'r LED ar gyfer Llwyth faint o bŵer a ddefnyddir o'r system. Noda'r LED ar gyfer Statws sawl cyflwr, megis pryd y mae'r switsh atal yn weithredol. Mae swnyn yn rhoi larymau clywadwy i nodi digwyddiadau critigol ar y BPS12.

Nodweddion Allweddol

- *–48 V cerrynt union, allbwn 12 A*
- *Mewnbwn cerrynt eiledol cyffredinol*
- *Switsh atal i dadalluogi allbynnau cyn cysylltu'r offer*
- *Cynllun gwefru unigryw sy'n sicrhau oes batri hir*
- *Torri i ffwrdd yn awtomatig ar ôl dadwefru i atal difrod i fatris*
- *Oeri aer gorfod*
- *Diogelwch i gyfyngu ar y cerrynt*
- *Allbynnau â ffiwsys ar wahân*
- *Systemau BPS12 lluosog wedi'u cydgadwyno*
- *Deuodau Allyrru Golau yn nodi statws system*
- *Larwm clywadwy i nodi amgylchiadau critigol*
- *Rhesel 19" osodadwy*
- *Gwarant 3 blynedd*

Zultys Technologies
771 Vaqueros Avenue
Sunnyvale, CA 94085
USA

Tel: +1-408-328-0450
Fax: +1-408-328-0451
Email: zultys@zultys.com
Web: www.zultys.com

BPS12 Battery Power Supply



Cymhwysiad

Dengys y llun sut y gellir defnyddio'r BPS12 mewn rhwydwaith arferol. Mae gan y cwmni System Teleffoni IP ac mae'n defnyddio'r BPS12 i sicrhau bod y gwasanaeth ffôn yn parhau'n weithredol pan fydd pŵer cerrynt eiledol yn methu. Ni ddefnyddir UPS yn y sefyllfa hon am fod dibynadwyedd yn hollbwysig.

Mae pyrth Ethernet y system VoIP yn cysylltu â dau switsh : mae'r naill yn cyflenwi IEEE 802.3af Power over Ethernet (PoE) ac mae'r llall heb wneud hynny. Mae'r switsh rheolaidd yn cysylltu â'r dyfeisiau nad oes angen iddynt gael pŵer pan fo'r cyflenwad pŵer yn methu. Efallai y bydd gan rai o'r rhain UPS sy'n gallu cyflenwi ychydig funudau o bŵer wrth gefn tra bod y gwasanaethwyr yn cau i lawr ar ôl i bŵer cerrynt eiledol fethu.

Mae'r switsh PoE yn cael ei bŵer oddi wrth y BPS12 ac mae'n cyflenwi -48 V i amrywiaeth o ddyfeisiau fel y dangosir. Mae angen i'r rhain barhau'n weithredol am gyfnod hir ar ôl i bŵer cerrynt eiledol fethu. Gall defnyddwyr barhau i gynnal sgwrs dros y ffon, ac nid amherir ar y swyddogaethau hanfodol megis goruchwyliaeth a mynediad i'r adeilad.

Mae'r amser y bydd y cynnyrch yn gweithredu heb bŵer cerrynt eiledol yn dibynnu ar faint o bŵer a ddefnyddir gan y dyfeisiau. Bydd system VoIP arferol yn parhau am bump awr o leiaf ar un BPS12. Bydd switsh PoE gyda 48 o ddyfeisiau, pob un yn hanner pŵer (fel y diffinnir yn y fanyleb PoE) yn parhau am tuag awr ar un BPS12. Gall y cwmni ychwanegu cyflenwadau BPS12 lluosog i ymestyn oes. Hefyd, drwy adolygu'n ddoeth y dyfeisiau nad oes angen iddynt gael pŵer pan fydd pŵer cerrynt eiledol wedi methu gellir ymestyn y cyfnod wrth gefn.

Dibynadwyedd ac Ansawdd

Mae batris asid plwm o ansawdd da ynghyd â chynllun gwefru soffistigedig yn sicrhau oes batri hir. Mae oeri aer gorfod yn helpu i ostwng tymheredd mewnol y BPS12. Dim ond pan fo angen y mae'r ffaniau yn gweithredu, sy'n ymestyn eu hoes yn sylweddol.

Mae'r cylchedwaith y tu mewn i'r BPS12 yn datgysylltu oddi wrth yr allbynnau os bydd eich dyfeisiau yn parhau i dynnu pŵer ar ôl i'r batris ddadwefru. Mae hyn yn atal y batris rhag dadwefru bron yn llwyr, gan estyn oes y batris hyd yn oed yn fwy.

Oherwydd y nodweddion hyn, mae Zultys yn gallu cynnig gwarant 3 blynedd, sy'n unigryw yn y diwydiant. Mae canolfannau gwasanaeth Zultys sydd wedi'u lleoli ledled y byd yn gallu gosod batris newydd.

Ffisegol ac Amgylcheddol

Allbwn Cerrynt Eiledol: 87-264 V, 47-63 Hz
Cerrynt mewnbwn: 6.5 A @ 110 V, 3.0 A @ 230 V
Allbwn Cerrynt Union: –48 V ± 15%
Allbwn pŵer: 600 W yn barhaus, 900 W brig
Ffactor pŵer: > 0.96
Tymheredd gweithredu: 0° C i 30° C (32° F i 86° F)
Tymheredd storio: –20° C i 40° C (–4° F i 104° F)
Pwysau: 27 kg (60 pwys). Pwysau cludo ar long 30 kg (66 pwys)
Maint: 430 mm (Lled) x 380 mm (Dyfnder) x 130 mm (Uchder) (17" x 15" x 5.25")
Dull gosod: Rhesel 19" safonol o'r wyneb, y canol neu'r cefn; 3 RU (130 mm)
Diogelwch: UL 60950, CSA-C22.2, AS/NZ 60950:2000, EN60950
Allyriad EMC: FCC rhan 15, ICES-003, AS/NZS 3548, CISPR 22, EN55022, EN61000-3-2, EN61000-3-3
Imiwnedd EMC: IEC61000-4-2, IEC61000-4-3, IEC61000-4-4, IEC61000-4-5, IEC61000-4-6, IEC61000-4-11
Gwarant: tair blynedd

Zultys Technologies
771 Vaqueros Avenue
Sunnyvale, CA 94085
USA

Tel: +1-408-328-0450
Fax: +1-408-328-0451
Email: zultys@zultys.com
Web: www.zultys.com

ZULTYS

Mae Zultys Technologies, logo Zultys, nod Zultys a BPS12 yn nodau masnach Zultys Technologies. Mae pob nod masnach a ddefnyddir yma yn eiddo i'w priod berchenogion.
©2003-2004 Zultys Technologies. Cedwir pob hawl. Rhif y Ddogfen 96-35725-00